**Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Penaethiaid Cynllunio
Awdurdodau Cynllunio Lleol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

11 Mawrth 2026

Annwyl gydweithwyr,

**Cymeradwyo Bil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)**

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod y 'Bil Cynllunio (Cymru)' a'r 'Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)' atodol wedi'u cymeradwyo gan Senedd Cymru ar 10 Mawrth, gan nodi carreg filltir arwyddocaol i gyfraith gynllunio yng Nghymru.

Mae'r Biliau hyn yn nodi cam arwyddocaol yn nhaith datganoli Cymru. Ar ôl eu cychwyn, bydd ein dibyniaeth ar ddeddfwriaeth amrywiol a basiwyd gan Senedd y DU yn dod i ben. Am y tro cyntaf, bydd corff llawn cyfraith gynllunio Cymru yn hygyrch mewn un fframwaith cyfreithiol cydlynol sydd wedi'i gynllunio'n benodol i Gymru. Mae hwn yn darparu'r datganiad mwyaf cynhwysfawr a hygyrch o'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli cynllunio gwlad a thref unrhyw le yn y DU.

Mae'r Biliau wedi bod yn destun craffu trylwyr gan y Senedd. Roedd ymateb rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y broses hon yn hynod o gadarnhaol, gyda'r Biliau hefyd yn derbyn cefnogaeth drawsbleidiol gan Aelodau'r Senedd.

Mae'r Bil Cynllunio (Cymru) yn cynnwys y darpariaethau sylweddol, sy'n dwyn ynghyd y prif ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n sail i'n system gynllunio. Er bod y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn Fil cysylltiedig sy'n gwneud y diwygiadau, diddymiadau, darpariaethau trosiannol ac arbedion angenrheidiol mewn cysylltiad â'r Bil Cynllunio (Cymru). Mae hyn yn osgoi llethu'r prif Fil gydag atodlenni technegol hir a chanddynt naill ai oes gyfyngedig yn ymarferol neu y byddant o ddiddordeb cyfyngedig iawn i’r rhan fwyaf o ddarllenwyr cyfraith cynllunio.

<u>Y camau nesaf</u>

Mae'n rhaid i'r Biliau nawr fynd i mewn i gyfnod hysbysu. Mae'r cyfnod statudol hwn yn para pedair wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw caiff Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru neu Dwrnai Cyffredinol Llywodraeth y DU gyfeirio'r Biliau i'r Goruchaf Lys o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006).

Ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben, bydd y Biliau'n cael eu cyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol gan Ei Fawrhydi, y Brenin Siarl III, ac fe osodir y Sêl Gymreig arnynt gan Brif Weinidog Cymru. Bydd hyn yn golygu bod y Biliau wedi dod yn Ddeddfau'r Senedd. Fodd bynnag, er mwyn i'r Deddfau ddod i rym a dod yn fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer cyfraith cynllunio yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu dwyn i rym ynghyd â chyfres o is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd y Deddfau a'r is-ddeddfwriaeth berthnasol yn cael eu cychwyn, bydd y fframwaith deddfwriaethol presennol yn parhau i fod yn berthnasol.

Disgwylir i gynllun gweithredu sy'n nodi'r camau a'r amserlenni i gychwyn ar y Deddfau gael ei gyhoeddi yn yr haf. Bydd yn rhoi eglurder ar y camau gweithredu sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â manylion y cymorth sydd i'w rhoi ar waith i randdeiliaid (yn enwedig Awdurdodau Cynllunio) i baratoi ar gyfer cychwyn y ddeddfwriaeth newydd. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Biliau, ar hyn o bryd, disgwylir i'r ddeddfwriaeth gychwyn o fewn 18 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, bydd cychwyn y Deddfau a'u hamseroedd yn fater i'r Llywodraeth nesaf ei ystyried a'i gytuno.

Er y bydd cwmpas terfynol y cynllun gweithredu yn cael ei bennu gan y Llywodraeth nesaf, mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Biliau yn tynnu sylw at y ffaith bod y system gynllunio yn seiliedig ar gorff sylweddol a chymhleth o is-ddeddfwriaeth, ynghyd ag ystod eang o ganllawiau a dogfennau polisi. Er mwyn hwyluso cychwyn y Deddfau mewn modd amserol, bydd angen dull graddol o ddiweddaru a chydgrynhoi'r deunydd hwn.

Fel y nodwyd gan y Llywodraeth yn ystod y broses graffu ar y Biliau, rhagwelir y bydd y cam cyntaf, y disgwylir iddo gyd-fynd â chychwyn y Deddfau, yn canolbwyntio ar y ddeddfwriaeth a'r canllawiau a ddefnyddir amlaf gan ymarferwyr, ac ar y rhai sydd angen y diwygiadau mwyaf sylweddol o ganlyniad i'r Deddfau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan randdeiliaid yr offer hanfodol ar waith o'r diwrnod cyntaf, wrth gynnal effaith gyfreithiol bresennol y system. Bydd yr ail gam yn mynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth sy'n weddill a'r gyfres ehangach o ganllawiau a dogfennau polisi dros y tymor canolig i'r tymor hir.

Mae'r dull hwn yn ceisio taro cydbwysedd cymesur rhwng cychwyn amserol y Deddfau a'r cyfyngiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â diweddaru a diwygio corff sylweddol a chymhleth o is-ddeddfwriaeth, canllawiau a dogfennau polisi a deunyddiau gweithredol eraill.

Rwyf am roi sicrwydd i bawb nad yw'r newid hwn yn rhywbeth y mae angen i ymarferwyr fod yn bryderus amdano. Mae effaith y gyfraith yn aros yr un fath, nid oes unrhyw bolisïau newydd i'w dysgu, ac ni fydd arferion sefydliadol yn newid. Er bod rhywfaint o derminoleg newydd, mae'r drafftio yn glir ac yn hygyrch. Er y byddwn yn darparu cefnogaeth, byddwch yn ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth yn naturiol wrth i chi ddechrau ei defnyddio.

Bydd y Deddfau a'u gwybodaeth ategol ar gael ar Legislation.gov.uk yn fuan ar ôl derbyn y Cydsyniad Brenhinol. Yn y cyfamser, mae'r Biliau, fel y'u cymeradwywyd gan y Senedd, a'r holl ddogfennau ategol ar gael i'w gweld ar wefan y Senedd:

- Bil Cynllunio (Cymru)
- Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru).

Yn gywir,

**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400